**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

13 Ionawr 2026

**1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026 yn:

- diweddaru'r rhestr o sylweddau yn Atodlen 2 i Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") i ychwanegu magnesiwm L-threonad monohydrad, at ddibenion rheoliad 5(1)(b)(i) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003");
- gosod meini prawf purdeb ar gyfer magnesiwm L-threonad monohydrad at ddibenion paragraffau (1)(b)(ii) a (2)(a) o reoliad 5 o Reoliadau 2003.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Dim.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gweithredodd Rheoliadau 2003 ddarpariaethau Cyfarwyddeb 2002/46/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 10 Mehefin 2002, ar gyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud ag atchwanegiadau bwyd. Mae Rhan 2 o Reoliadau 2019, ac Atodlenni 1 a 2, yn cynnwys darpariaethau a phwerau mewn perthynas ag atchwanegiadau bwyd.

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2003 yn gwahardd gwerthu atchwanegiadau bwyd yng Nghymru sy'n cynnwys fitamin neu fwyn oni bai bod yr amodau a ganlyn yn berthnasol:

- mae'r fitamin neu'r mwyn wedi ei restru yn Atodlen 1 i Reoliadau 2019 (rhestrir magnesiwm fel mwyn yn Atodlen 1);
- mae'r fitamin neu'r mwyn ar ffurf sydd: (i) wedi ei rhestru yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019; a (ii) yn bodloni'r meini prawf purdeb fel y'u diffinnir yn rheoliad 5.

Mae'r offeryn hwn yn dilyn gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ac fe'i gwneir gan ddefnyddio'r pwerau o dan reoliadau 2(2), 3 a 5(1) o Reoliadau 2019. Daeth y pwerau hyn wrth inni ymadael â'r UE. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni'r swyddogaethau mewn perthynas ag atchwanegiadau bwyd yr ymgymerwyd â hwy yn flaenorol gan y Comisiwn a Senedd Ewrop o dan Gyfarwyddeb 2002/46/EC.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi magnesiwm L-threonad monohydrad fel bwyd newydd o dan ddarpariaethau cyfraith a gymhathwyd, sef Rheoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 25 Tachwedd 2015, ar fwydydd newydd. Mae gwybodaeth am yr awdurdodiad ar gael ar y rhestr o fwydydd newydd a awdurdodwyd a gynhelir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Foss House, Kings Pool, 1-2 Peasholme Green, York YO1 7PR) yn unol ag Erthygl 3B o Reoliad (EU) 2015/2283.

Mae'r Rheoliadau hyn yn:

- caniatáu i fagnesiwm L-threonad fod yn ffurf ar fagnesiwm i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd;
- gosod meini prawf purdeb ar gyfer magnesiwm L-threonad.

Mae'r Rheoliadau yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r awdurdodiad bwyd newydd ar gyfer y sylwedd a fydd yn dod i rym ar yr un dyddiad ag y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

## 5. Ymgynghori

Ystyriwyd Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd. Mae Erthygl 9 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori'n agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd, yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychioliadol, wrth lunio, gwerthuso a diwygio cyfraith bwyd, ac eithrio pan na fo brys y mater yn caniatáu hynny.

Ar 18 Rhagfyr 2024, lansiodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ymgynghoriad cyhoeddus naw wythnos ar awdurdodi deg cynnyrch bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig (gan gynnwys magnesiwm L-threonad) i'w rhoi ar y farchnad. Er bod yr ymgynghoriad yn agored i'r cyhoedd, roedd wedi ei dargedu yn benodol at bob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant mewn diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Lansiodd Food Standards Scotland ymgynghoriad cyfochrog.

Ar 18 Rhagfyr 2024, fel rhan o'u hymgynghoriad, cyhoeddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yr Argymhelliad Rheoli Risg drafft ar gyfer y sylwedd. Roedd yr argymhellion rheoli risg yn amlinellu diogelwch y sylwedd o dan yr amodau defnyddio arfaethedig. Ar 16 Hydref 2025, ymatebodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'r ymgynghoriad.

## ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar fusnesau sy'n gweithredu yn y farchnad yng Nghymru. Mae'r newid rheoleiddiol hwn yn hwyluso busnes ac nid yw'n gosod unrhyw rwymedigaethau ar fusnesau i newid eu model busnes na'r cynhyrchion y maent yn eu gwerthu. Felly, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau ariannol.

### 6. Yr opsiynau

**Opsiwn 1**: Busnes fel arfer/gwneud dim.
Mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r sylwedd hwn fel bwyd newydd. Mae'r offeryn hwn yn ofynnol i'w gwneud yn bosibl i'r sylwedd gael ei werthu fel atchwanegiad bwyd yng Nghymru heb dorri rheoliad 5 o Reoliadau 2003. Rydym yn ystyried, felly, fod hwn yn opsiwn risg uchel.

Daeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'r casgliad bod y bwyd newydd yn ddiogel o dan yr amodau defnyddio arfaethedig ac nad yw'n peri risg ddiogelwch i iechyd pobl. Ni ystyriwyd bod y lefelau cymeriant disgwyliedig a'r defnydd arfaethedig yn anfanteisiol o ran maeth. Mae awdurdodiad tebyg wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer marchnad yr UE.

**Opsiwn 2:** diweddaru'r rhestr o sylweddau yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019 i ychwanegu magnesiwm L-threonad monohydrad at ddibenion rheoliad 5(1)(b)(i) o Reoliadau 2003 a gosod ei feini prawf purdeb at ddibenion rheoliad 5(1)(b)(ii) o'r rheoliadau hynny.

Nid oes unrhyw opsiynau eraill ymarferol.

Rydym o'r farn mai hwn yw'r opsiwn gorau i sicrhau bod yr atchwanegiad bwyd newydd yn cydymffurfio â phob agwedd ar reoliad 5 o Reoliadau 2003.

Byddai gwneud y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn bosibl i fagnesiwm L-threonad fod yn ffurf a ganiateir ar fagnesiwm y gellir ei defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd ac yn nodi'r meini prawf purdeb ar gyfer y sylwedd. Bydd yr offeryn hwn yn caniatáu i'r sylwedd gael ei ddefnyddio yng Nghymru a bydd yn sicrhau bod ein polisi ar y sylwedd yn cyd-fynd â'r UE lle y mae'r atchwanegiad eisoes wedi ei awdurdodi ar gyfer y farchnad atchwanegiadau bwyd, ar sail meini prawf purdeb tebyg.

### 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1** – Busnes fel arfer/gwneud dim.
Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Fel yr eglurwyd uchod, nid hwn yw'r opsiwn a ffefrir gan y byddai'n golygu na ellid gwerthu'r bwyd newydd a awdurdodwyd gan weinidogion fel atchwanegiad heb dorri rheoliad 5 o Reoliadau 2003.

**Opsiwn 2 –** diweddaru'r rhestr o sylweddau yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019 i ychwanegu magnesiwm L-threonad monohydrad, at ddibenion rheoliad 5(1)(b)(i) o Reoliadau 2003 a gosod ei feini prawf purdeb at ddibenion rheoliad 5(1)(b)(ii) o'r rheoliadau hynny.

Ni ddisgwylir i'r newid arfaethedig arwain at unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i Lywodraeth Cymru neu reoleiddwyr y tu allan i'w gwaith arferol mewn perthynas ag atchwanegiadau bwyd a bwydydd newydd awdurdodedig.

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau orfodi unrhyw gostau ychwanegol ar fusnesau sy'n gweithredu yng Nghymru nac yn y DU yn ehangach. Bydd y busnes a wnaeth gais i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am yr awdurdodiad hwn yn cadw'r hawliau neilltuol i werthu'r cynnyrch ar y farchnad atchwanegiadau bwyd yng Nghymru am bum mlynedd ar ôl iddo gael ei awdurdodi. Y busnes hwn yn unig fydd yn cael ei effeithio yn uniongyrchol i ddechrau felly. Yn y tymor hwy, drwy ei gwneud yn bosibl i fagnesiwm L-threonad gael ei ddefnyddio, darperir ffurf arall ar fagnesiwm i fusnesau bwyd eraill hefyd ei defnyddio mewn atchwanegiadau bwyd ond bydd ei defnyddio yn ddewisol. Rhagwelir na fydd cynhyrchwyr yn defnyddio magnesiwm L-threonad ond pan fyddant yn canfod bod budd cynnyrch neu bris i'w busnes.

Mae gan yr awdurdodiad y potensial i annog rhagor o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector atchwanegiadau bwyd. Bydd defnyddwyr hefyd yn elwa ar yr opsiwn o'r atchwanegiad bwyd hwn.

Mae defnyddio magnesiwm L-threonad fel bwyd newydd eisoes wedi cael ei gymeradwyo yn yr UE ynghyd â defnyddio'r sylwedd mewn atchwanegiadau bwyd. Mae'r sylwedd wedi cael ei gymeradwyo fel bwyd newydd yn yr Alban, ac maent wedi gosod rheoliadau ar ffurf debyg i'r rheoliadau a ddisgrifir yn yr opsiwn hwn. Mae'r opsiwn hwn yn sicrhau nad yw busnesau Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais bosibl o gymharu â chynhyrchwyr mewn mannau eraill.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd[1] wedi cynnal asesiad o Fagnesiwm L-threonad ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn ddiogel o dan yr amodau defnyddio arfaethedig ac nad yw'n peri risg ddiogelwch i iechyd pobl.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

[1] Asesiad Diogelwch: Magnesiwm L-threonad fel bwyd newydd i'w ddefnyddio mewn atchwanegiadau bwyd

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth (isod) wedi ei gynnal. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

| **Prawf hidlo'r gystadleuaeth** | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliadau newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliadau yn cael effaith lawer mwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddent |
| **C5**: A yw'r rheoliadau yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydynt |
| **C6**: A fyddai'r rheoliadau yn arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C7**: A fyddai'r rheoliadau yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliadau yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddent |

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd adolygiad ar ôl gweithredu o'r Offeryn Statudol yn cael ei gynnal yn 2029, dair blynedd ar ôl gweithredu.